## COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE SOCIAL SERVICES SCRUTINY COMMITTEE**

**SUBJECT:** **SOCIAL SERVICES SCRUTINY COMMITTEE - DYDD IAU, 17 HYDREF 2019 DYDD IAU, 17 HYDREF 2019**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: S. THOMAS (CADEIRYDD)

Councillors K. Rowson (Is-gadeirydd)
D. Bevan
G. A. Davies
P. Edwards
L. Elias
K. Hayden
J. Millard
M. Moore
G. Paulsen
T. Sharrem
T. Smith

WITH:

| |
|---|
| Damien McCann (Swyddog) |
| Tanya Evans (Swyddog) |
| Alyson Hoskins (Swyddog) |
| Liz Thomas (Swyddog) |
| Sue Radford (Cyhoedd) |
| Ceri Bird (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M Day a J. Holt. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 2 Medi 2019.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU - 2 MEDI 2019</u>**<br><br>Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 2 Medi 2019.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r ddalen weithredu. | |
| **No. 6** | **<u>PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR GWEITHREDOL AR GYFER Y PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i Ddalen Benderfyniadau'r Pwyllgor Gweithredu.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi Dalen Benderfyniadau'r Pwyllgor Gweithredol. | |
| **No. 7** | **<u>CYNNIG GOFAL PLANT LLYWODRAETH CYMRU - BLAENAU GWENT A THORFAEN</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant yr adroddiad sy'n diweddaru Aelodau ar y gwaith parhaus i ymestyn | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru ym Mlaenau Gwent a blwyddyn gyntaf ei ymestyn yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.<br><br>Canmolodd Aelodau yr adroddiad a theimlent fod yr Awdurdod yn helpu teuluoedd mewn gwaith gyda chymorth gofal plant a rhoi dechrau da i blant 3 i 4 oed dan oedran ysgol.<br>Holodd Aelod pam nad yw gwybodaeth ar rieni sydd wedi cynyddu eu horiau gwaith yn cael ei chyflwyno ar lefel leol. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant y medrid rhoi’r oriau ychwanegol y mae rhieni yn eu gweithio ar lefel leol a gellid hysbysu rhieni sy’n gweithio 10 neu 12 awr y byddent yn gymwys am y Cynnig Gofal Plant pe byddent yn cynyddu eu horiau i 16.<br><br>Dywedodd Aelod fod angen mwy o fanylion ar grantiau ac y dylai gwaith gyda’r trydydd sector gael ei gydnabod a theimlai y dylid cynnwys dull adrodd yn yr adroddiad yng nghyswllt y bobl sy’n mynd yn ôl i’r gwaith. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant nad yw Llywodraeth Cymru yn casglu’r wybodaeth honno; fodd bynnag, gellid cynnal arolwg i ganfod faint o bobl oedd yn ailymuno â’r farchnad swyddi fel canlyniad i’r Cynnig Gofal Plant. Dywedodd yr Aelod y medrid rhoi’r wybodaeth hon i Cymunedau am Waith. Eglurodd y Swyddog efallai nad yw’r nifer o bobl sy’n dychwelyd i’r gwaith yn ganlyniad y Cynnig Gofal Plant.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am Dechrau’n Deg a’r Cynnig Gofal Pant, eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant mai dim ond mewn rhai ardaloedd ac i’r teuluoedd mwyaf bregus yn y gymuned gyda phlant dan 2 flwydd oed y mae Dechrau Deg ar gael. Mae’r Cynnig Gofal Plant ar gael i rieni mewn gwaith gyda phlant 3 neu 4 oed. Holodd Aelod pryd y byddai’r cynllun Dechrau’n Deg yn cael ei ymestyn i gynnwys ardaloedd eraill gyda rhieni bregus sy’n cael problemau am ofal plant. Esboniodd y Swyddog fod Llywodraeth Cymru yn rhoi uchafswm ar y rhifau Dechrau’n Deg ac mai dim ond traean o blant 0/3 oed y Fwrdeistref sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun Dechrau’n Deg. Mae’r gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar yn gymhleth ac anodd i rieni fynd drwyddynt a gobeithid y byddai’r rhaglen Braenaru yn ei gwneud yn gliriach i rieni.<br><br>Awgrymodd y Cadeirydd bod Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i fynegi’r pryderon a godwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | CYTUNODD y Pwyllgor ar y llwybr gweithredu hwn.<br><br>Holodd Aelod pwy fyddai'n gymwys am y Cynnig Gwasanaethau Plant. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Plant y bu'r tîm Blynyddoedd Cynnar yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Byd Gwaith am gymhwyster ac yn ceisio marchnata'r Cynnig i gyrraedd cynifer o bobl ag sydd modd, paratowyd fideo ar gyfer rhieni gyda chanllawiau cam wrth gam ar sut i wneud cais. I gynyddu marchnata, byddid hefyd yn anfon llythyrau a chardiau post at rieni yn eu hysbysu am y Cynnig.<br><br>CYTUNWYD YMHELLACH gan y Cyngor, yn amodol ar yr uchod, i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2; sef derbyn argymhelliad yr Aelodau i'r Pwyllgor Gweithredol i wella darpariaeth y Cynnig Gofal Plant i breswylwyr ym Mlaenau Gwent a hefyd Dorfaen. | |
| **No. 8** | **<u>DIWEDDARIAD AR Y BARTNERIAETH RANBARTHOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad sy'n diweddaru Aelodau ar y gwaith a'r penderfyniadau a wnaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol dros y 6 mis diwethaf, a ddatblygwyd dan ganllawiau statudol Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at oedi mewn cleifion yn dychwelyd adre o'r ysbyty. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod Homefirst yn darparu gwasanaeth cyflym ac yn gweithredu mewn adrannau Argyfwng a Damweiniau. Roedd cydweithio yn rhoi asesiad cyflymach i ryddhau pobl yn ddiogel o ysbyty gyda llwybrau clir ar gyfer preswylwyr sydd wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol; fodd bynnag, yn nhermau rhyddhau o ysbyty mae'r pump awdurdod lleol yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol. Roedd yr Awdurdod yn gweithredu prosiect peilot ar ran awdurdodau lleol eraill sy'n lleoli staff pwrpasol ar wardiau ysbyty i weithredu'n uniongyrchol ar unrhyw resymau am oedi. Dywedodd staff fod y prosiect peilot yn llwyddiannus.<br><br>Cododd Aelod bryderon am leoedd gwag mewn cartrefi nyrsio a | |

theimlai fod teuluoedd rhai cleifion yn teimlo dan bwysau i ddewis cartref nyrsio yn gyflym. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod nifer o gartrefi gofal gyda lleoedd gwag. Roedd swyddogion o'r Adran wedi cysylltu'n uniongyrchol â chartrefi gofal am yr wybodaeth ddiweddaraf yn wythnosol sy'n dynodi lleoedd gwag o fewn eu staff Gofal Cartref a gallai Gweithwyr Cymdeithasol yn gweithio mewn wardiau ysbyty helpu gyda'r wybodaeth yma. Mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi rhyddhau clir fod teuluoedd yn dynodi tri lleoliad cartref gofal, mae'n rhaid i un fod â lle gwag a disgwylir i deuluoedd fod yn rhagweithiol wrth ddynodi'r lleoliadau hyn.

Cytunodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion i siarad gydag Aelod tu allan i'r cyfarfod am achosion unigol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol mai'r strategaeth Byw'n Annibynnol fu ethos yr Awdurdod am flynyddoedd lawer. Y llwybr gorau i gleifion yw dychwelyd adref, fodd bynnag byddai angen gwneud penderfyniadau hirdymor yn nhermau lleoliadau Gofal Cartref.

Gadawodd y Cynghorydd Jonathan Millard y cyfarfod ar y pwynt hwn.

Hysbysodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yr Aelodau am y data presennol yng nghyswllt lleoedd gwag mewn cartrefi gofal h.y. 12 lle gwag mewn cartrefi gofal ar draws y Fwrdeistref, 21 lle gwag mewn cartrefi dementia a 7 mewn cartrefi nyrsio EMI.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod am ysbyty newydd y Grange, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y bu peth trafodaeth ond bod diffyg gwybodaeth ar gael am ba wasanaethau fydd yn cael eu darparu ond teimlai cydweithwyr o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y byddai gwybodaeth ar wasanaethau yn y cyfleuster newydd ar gael. Roedd pryder am gysylltiadau teithio i'r ysbyty newydd, h.y. gall fod yn rhaid i bobl gymryd hyd at dri bws i fynychu'r ysbyty, ond byddai hyn yn gonsyrn ar draws Gwent.

Dywedodd Aelod iddo gael gohebiaeth am y cysylltiadau teithio i'r ysbyty sy'n sôn am welliannau i orsaf reilffordd Cwmbrân ond roedd gan yr Aelod bryderon gan fod hyn yn rheilffordd gwahanol.

Yng nghyswllt gwasanaethau Iechyd Meddwl, dywedodd Aelod ei

| | | |
|---|---|---|
| | fod yn croesawu'r cynnydd a wnaed gyda'r model Mynydd Iâ.<br>Yng nghyswllt cyllid Trawsnewid, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr Adran yn edrych ar wahanol fodelau a bod Blaenau Gwent ar y blaen a gyda'r gallu i'w gweithredu. Dim ond yn hwyr yn y dydd y cadarnhawyd peth cyllid oedd wedi'i gwneud yn anodd i weithredu rhai o'r cynlluniau mawr o fewn yr amserlen a chafodd y pryderon hyn eu bwydo'n ôl i Lywodraeth Cymru. Fel gyda llawer o brosiectau, roedd peth llithriad ac mae'r Adran wedi cyflwyno rhai cynigion llithriad.<br><br>Dywedodd Aelod arall ei fod yn croesawu'r buddsoddiad ar gyfer yr ysbyty newydd. Fodd bynnag, mae rhai rhannau o'r Fwrdeistref yn lled-wledig ac mae'n hanfodol y caiff cysylltiadau trafnidiaeth da i'r ysbyty newydd o Flaenau Gwent ac awdurdodau cyfagos eu gweithredu.<br><br>Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod am faterion recriwtio, dywedodd y Cyfarwyddwyr fod staff mewn rhai achosion yn cael eu secondio i swyddi ond fod hyn yn cael effaith ar y gwasanaeth maent yn ei adael. Mae rhai aelodau staff yn amharod i adael swyddi presennol am swydd gyda chyllid tymor byr ac mae'r rhan fwyaf o bobl eisiau swydd barhaol, hyd yn oed y rhai mewn swyddi dros dro.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cefnogi penderfyniadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. | |
| **No. 9** | **DIWEDDARIAD CRONFA GOFAL INTEGREDIG 2019**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yr adroddiad sy'n rhoi trosolwg i Aelodau ar ddyraniad presennol cyllid ar gyfer prosiectau a gaiff eu monitro gan Gwasanaethau Oedolion a'u cyllido drwy Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru fel ym mis Medi 2019.<br><br>Holodd Aelod am yr effaith i bobl pe byddid yn dileu cyllid. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, os caiff cyllid ei dynnu bant y byddai'r cyfleuster gofal gwely integredig, sy'n galluogi cleifion i adael yr ysbyty'n gyflym, yn cael ei ddileu a byddai'n arwain at oedi wrth i bobl adael yr ysbyty tra bod eu | |

| | | |
|---|---|---|
| | cartrefi'n cael eu haddasu. Trefnir sesiwn wybodaeth Aelodau Cymunedau Trugarog i edrych ar sut i gefnogi pobl a meddygon teulu yn well fel nad oedd pobl wedi eu hynysu'n gymdeithasol. Os tynnir cyllid yn ôl, byddai hyn yn effeithio ar y cyllid a wnaed a byddai gwasanaethau ataliol yn dod i ben.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r dystiolaeth a roddwyd i gefnogi'r ffordd y cyrchir cyllid grant Cronfa Gofal Integredig sydd ar gael i gefnogi blaenoriaethau strategol y Cyngor a'r gwasanaeth i barhau i ddarparu diweddariadau cynnydd i'r Pwyllgor Craffu yn 2020/21 fel yr amlinellir yn yr adroddiad. | |
| **No. 10** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETH CENEDLAETHOL MABWYSIADU 2018/19</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Rheolwr Gwasanaeth SEWAS.<br><br>Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaeth SEWAS yr adroddiad ar berfformiad Gwasanaeth Mabwysiadu De Ddwyrain Cymru (SEWAS) a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS) ar gyfer 2018/19.<br><br>Yng nghyswllt y galw am leoliadau mabwysiadu a recriwtio mabwysiadwyr, dywedodd Aelod fod yr ymgyrch recriwtio yn dda iawn a theimlai y gellid defnyddio hysbysebion ar gylchfannau a byrddau hysbysebu ar gyfer dibenion recriwtio'n fwy effeithlon.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant i 70 o blant gael eu lleoli gyda rhieni mabwysiadu a chadarnhaodd fod nifer y mabwysiadwyr wedi gostwng.<br><br>Holodd Aelod am yr oedi gyda phlant yn derbyn eu deunyddiau taith bywyd. Dywedodd Rheolwr Gwasanaeth SEWAS y penodwyd Cydlynydd newydd i helpu gwella'r amserlenni ar gyfer derbyn deunyddiau taith bywyd gyda chyllid buddsoddi Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i wella perfformiad o hyn ymlaen.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef derbyn yr wybodaeth fel y cafodd ei hadrodd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gadawodd y Cynghorydd Greg Paulsen y cyfarfod ar y pwynt hwn. | |
| **No. 11** | **BLAENRAGLEN GWAITH - 28 TACHWEDD 2019**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd am gynnwys adroddiad ar y Gwasanaeth Prydau Cymunedol yn y Flaenraglen Gwaith. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod trafodaethau'n mynd rhagddynt gydag Adran yr Amgylchedd i edrych ar fodel i gynyddu nifer y prydau cymunedol a byddai'n cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor maes o law.<br><br>Cododd y Cadeirydd bryderon am yr wybodaeth Perfformiad Cenedlaethol Blynyddol a gynhwysir yn y pecyn gwybodaeth a gofynnodd am gynnal cydgyfarfod craffu i'w ystyried.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor ar y llwybr gweithredu hwn.<br><br>CYTUNWYD YMHELLACH gan y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef cymeradwyo Blaenraglen Gwaith Craffu y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y cyfarfod ar 28 Tachwedd 2019. | |